TGAU – NEWYDD

3010NA0-1

# LLENYDDIAETH GYMRAEG

## UNED 1: BARDDONIAETH

## HAEN UWCH

DYDD LLUN, 15 MAI 2017 – PRYNHAWN

1 awr 15 munud a'ch amser estynedig

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

## DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Defnyddiwch inc neu feiro du neu eich dull arferol.

UN CWESTIWN GORFODOL ar farddoniaeth sydd ar y papur hwn.

Ni chaniateir defnyddio geiriaduron.

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

Mae 40 marc am y cwestiwn.

Bydd trefn a chywirdeb eich ysgrifennu yn cael ei ystyried yn rhan o'r asesiad.

1. **Darllenwch y DDWY gerdd ganlynol yn ofalus.**
**Yn y cerddi, mae’r ddau fardd yn rhoi darlun o le sy’n gyfarwydd iddyn nhw.**

**CYMHARWCH y ddwy gerdd gan ddangos sut maen nhw’n debyg neu’n wahanol. Wrth drafod y cerddi dylech gyfeirio at y canlynol:**

- **cynnwys a neges / themâu y cerddi**
- **sut mae’r beirdd yn cyfleu eu syniadau neu’n creu awyrgylch yn y cerddi (nodweddion arddull, mesurau ac ati)**
- **eich ymateb personol i’r cerddi**

**Wrth ateb, COFIWCH DDYFYNNU’N BRIODOL A CHYFEIRIO AT ENGHREIFFTIAU PENODOL i gefnogi’ch sylwadau. [40]**

## EIFIONYDD

O olwg hagrwch Cynnydd
Ar wyneb trist y Gwaith
Mae bro rhwng môr a mynydd
Heb arni staen na chraith,
Ond lle bu’r arad’ ar y ffridd
Yn rhwygo’r gwanwyn pêr o’r pridd.

Draw o ymryson ynfyd
Chwerw’r newyddfyd blin,
Mae yno flas y cynfyd
Yn aros fel hen win:
Hen, hen yw murmur llawer man
Sydd rhwng dwy afon yn Rhos Lan.

A llonydd gorffenedig
Yw llonydd y Lôn Goed,
O fwa’i tho plethedig
I’w glaslawr dan fy nhroed.
I lan na thref nid arwain ddim,
Ond hynny nid yw ofid im.

O! mwyn yw cyrraedd canol
Y tawel gwmwd hwn,
O’m dyffryn diwydiannol
A dull y byd a wn;
A rhodio’i heddwch wrthyf f’hun
Neu gydag enaid hoff, cytûn.

R. Williams Parry

## CARTREF

**Does gen i ddim nefoedd i'w gynnig i chi
dim ond palmant a pharc, ac ambell i gi.**

**Hen fainc wedi rhydu, a ffens fawr ddu,
ac ambell i gar o flaen ambell i dŷ.**

**Mae hen wynt yn chwarae trwy'r dail ar y llawr,
a bys yn mynd heibio o awr i awr.**

**Bydd ddoe a heddiw a fory yr un,
yr un fydd y lliwiau fydd i'w gweld yn y llun.**

**Does fawr neb yn dewis aros fan hyn,
a rhyw le fan draw bob tro yw'r man gwyn.**

**Ond mae rhai sy'n dal yma, yn sownd o hyd
fel y pla gwm cnoi ar bob palmant a stryd.**

**A gwelaf, drwy'r ffenest, drwy'r llen hanner cau
fy stryd lwyd fy hun, ac arni ryw ddau...**

**...hen ŵr a hen wraig yn cydio llaw
yn edrych ar fachlud y gorwel draw.**

**Hywel Dafydd**

**DIWEDD Y PAPUR**